

Pa mor dda mae'r Deyrnas  
Unedig yn perfformio ar  
hawliau anabledd?

Pryderon ac argymhellion y  
Cenhedloedd Unedig ar y Deyrnas  
Unedig

# Cyflwyniad

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ('y Confensiwn') yn gytundeb cyfreithiol rhyngwladol ynghylch hawliau dynol pobl anabl. Mae nifer o wledydd ledled y byd – yn cynnwys y Deyrnas Unedig – wedi llofnodi'r Confensiwn. Mae hyn yn golygu eu bod wedi gwneud ymroddiad i hyrwyddo a diogelu hawliau dynol pobl anabl.

Yn Awst 2017, adolygwyd cynnydd y Deyrnas Unedig yn erbyn y Confensiwn gan grŵp o arbenigwyr rhyngwladol yn Ngenefa.

Mae'r grŵp o arbenigwyr, a elwir yn Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ('Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig'), yn monitro pa mor dda mae'r Confensiwn yn cael ei roi ar waith trwy adolygiadau a gynhelir oddeutu pob pedair blynedd.

Mae hwn yn drosolwg o'r argymhellion a wnaethpwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ei adroddiad 'Concluding Observations' yn dilyn ei adolygiad o'r Deyrnas Unedig yn Awst 2017. Gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig 80 o argymhellion ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar gyfer hwylustod, mae'r trosolwg hwn yn cyfeirio at y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig fel 'y Deyrnas Unedig'. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi dweud y dylai'r Deyrnas Unedig weithio'n agos gyda sefydliadau pobl anabl i weithredu ei argymhellion.

# Egwyddorion a rhwymedigaethau cyffredinol (Erthyglau 1-4)

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Wneud y Confensiwn yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig**, er mwyn gallu ei orfodi yn llysoedd y Deyrnas Unedig.
- **Sicrhau fod hawliau dynol ac asesiad o rwystrau mewn cymdeithas y dylid eu diddymu** yn hysbysu polisiau yn effeithio ar bobl anabl ar draws y Deyrnas Unedig.
- Cyflawni **adolygiad llawn o gyfreithiau a pholisïau'r Deyrnas Unedig** i'w gwneud yn unol â'r Confensiwn.
- Datblygu cynllun gweithredu i **ddiddymu unrhyw gyfreithiau, rheoliadau, arferion ac ymarferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl**. Dylai'r cynllun hwn fod yn fesuradwy ac wedi ei gyllido'n llawn.
- **Atal Brexit rhag cael effaith negyddol ar bobl anabl**.
- Casglu gwybodaeth ar **amodau byw pobl anabl** a sefydlu cynllun i'w gwella.
- **Cefnogi sefydliadau pobl anabl**, a datblygu cynlluniau gweithredu i'w **cynnwys** mewn polisiau a chyfreithiau sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl. Dylai'r cynlluniau hyn fod yn fesuradwy, wedi eu hariannu'n briodol a'u gwirio'n rheolaidd.

# Hawliau penodol (Erthyglau 5-30)

## Cydraddoldeb a pheidio gwahaniaethu (Erthygl 5)

---

Yn ôl Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Newid ei gyfreithiau erthyly** fel nad ydynt yn caniatáu erthyliaid detholus ar unrhyw gyfnod o'r beichiogrwydd oherwydd bod yn y ffoetws nam, tra'n parchu hawliau menywod i ryddid atgynhyrchiol a rhywiol.
- **Amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu croestoriadol**, a sicrhau fod dioddefwyr yn cael yr iawndal priodol a bod cosbau priodol yn eu lle. Mae gwahaniaethu croestoriadol yn digwydd pan wahaniaethir yn erbyn pobl ar sail mwy nag un nodwedd, er enghraifft oherwydd anabledd yn ogystal â rhyw, hil, oed neu gyfeiriadedd rhywiol.
- **Dod â holl ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym**, yn cynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i'r rhannau a rennir o eiddo preswyl (fel coridorau cymunedol).
- Sicrhau fod Llywodraeth gogledd Iwerddon, unwaith y bydd yn ei le, yn diwygio cyfraith gwahaniaethu ar sail anabledd i **amddiffyn pobl anabl rhag pob math o wahaniaethu anabledd**.

## Menywod gydag anableddau (Erthygl 6)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig gynnwys hawliau menywod a merched anabl yn ei bolisiau cydraddoldeb rhyw ac anabledd.

## Plant gydag anableddau (Erthygl 7)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn gweithredu i:

- **Gwtogi'r lefelau uchel o dlodi** ymysg teuluoedd gyda phlant anabl.

- Sefydlu **proses fonitro annibynnol** i adolygu sut mae plant anabl yn gwneud yn yr ysgol, yn arbennig y rhai sy'n wynebu bwlio.
- Ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol i **ddarparu gofal plant digonol i blant anabl**.
- Gwneud mwy i atal bwlio, iaith casineb a throsedd casineb yn erbyn plant anabl.

## Codi ymwybyddiaeth (Erthygl 8)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y Deyrnas Unedig yn cryfhau ei **ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth** i wella agweddau tuag at bobl anabl, yn arbennig y rhai gydag anabledau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl, a phobl gyda chyflyrau fel dementia ac Alzheimer.

## Hygyrchedd (Erthygl 9)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Wella safonau hygyrchedd cyfreithiol** ar draws pob un o feysydd y Confensiwn, yn cynnwys: dyluniad yr amgylchedd ffisegol; gofodau gwyrdd ac agored; tai, technoleg gwybodaeth a digidol; trafnidiaeth a gwasanaethau brys.
- **Monitro cynnydd tuag at wella hygyrchedd i bobl anabl** a gweithredu yn erbyn y rhai sy'n anwybyddu eu cyfrifoldebau.

## Hawl i fywyd (Erthygl 10)

---

Galwodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar y Deyrnas Unedig i:

- Gynhyrchu cynllun gweithredu i atal dehongli pobl anabl fel rhai nad ydynt yn byw 'bywyd da a boddhaol,' ac i gydnabod eu bod yn gyfartal i bobl eraill.
- Sicrhau bod gan bobl anabl fynediad llawn i driniaeth a gofal meddygol sy'n cynnal bywyd.

## Sefyllfaoedd o risg ac argyfyngau dyngarol (Erthygl 11)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Gynhyrchu cynllun trylwyr ar gyfer lleihau'r risg o argyfyngau, a strategaethau i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynnwys ac yn gallu cael mynediad at gefnogaeth argyfwng.
- Sicrhau bod **anabledd yn ystyriaeth ar bob adeg wrth ymateb** i argyfwng.
- Datblygu systemau gwybodaeth a rhybudd hygyrch i'w defnyddio mewn argyfyngau.
- Sicrhau bod **sefydliadau pobl anabl yn chwarae rhan weithredol** wrth helpu paratoi ar gyfer argyfyngau.

## Cydnabyddiaeth gyfartal gerbron y gyfraith (Erthygl 12)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn gweithredu i:

- **Ddiddymu 'gwneud penderfyniadau trwy ddirprwy'** ble gwneir penderfyniadau ar ran pobl anabl, trwy ddiwygio cyfreithiau a pholisïau galluedd meddyliol ac iechyd meddwl.
- **Gwella 'gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth'** trwy ddatblygu ffyrdd i gefnogi pobl anabl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, er enghraifft, trwy ymchwil a rhannu arfer da.
- Sicrhau bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid anabl yn gallu arfer eu holl hawliau dan y Confensiwn.

## Mynediad at gyfiawnder (Erthygl 13)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Ddatblygu a chyflwyno rhaglenni i wneud barnwyr, erlynyddion, swyddogion yr heddlu a staff carchardai yn ymwybodol o hawliau pobl anabl.
- Canfod dulliau newydd o gefnogi pobl anabl, yn arbennig y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl, i wneud penderfyniadau mewn achosion llys.
- Darparu cymorth cyfreithiol am ddim neu fforddiadwy i bobl anabl ym mhob un o feysydd y gyfraith.
- Sicrhau y gall pobl anabl arfer eu hawliau o fewn y system cyfiawnder trwy wneud addasiadau priodol.

- Galluogi pobl fyddar i eistedd ar reithgorau trwy ddefnyddio dehonglwyr iaith arwyddion.
- Cefnogi pobl anabl i weithio yn y system cyfiawnder.

## Rhyddid a diogelwch y person (Erthygl 14)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Wyrddroi cyfreithiau sy'n caniatáu i bobl gael eu cadw a thrin heb eu cydsyniad ar sail eu hamhariad.
- Ymchwilio yn briodol i a therfynu pob ffurf o gam-drin pobl anabl mewn sefydliadau.

## Rhyddid rhag artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu israddol (Erthygl 15)

---

Galwodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar y Deyrnas Unedig i:

- **Roi terfyn ar ddefnyddio ataliaeth am resymau yn ymwneud ag anabledd**, a therfynu arferion gwahanu ac ynysu, mewn lleoliadau fel carchardai, ysbytai a'r system cyfiawnder ieuencid.
- **Atal defnyddio ataliaeth ar blant a phobl ifanc anabl.**
- Gwahardd defnyddio therapi electrogonsfysliwn heb gydsyniad, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon.

## Rhyddid rhag camfanteisio, trais a cham-drin (Erthygl 16)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Sicrhau bod pobl anabl (yn arbennig menywod, plant, pobl rhyngrywiol a phobl oedrannus anabl) yn cael **mynediad cyfartal at gyfiawnder, ac wedi eu hamddiffyn rhag cam-drin a chamfanteisio.**
- **Datblygu diffiniad clir o anabledd a throedd casineb**, a sicrhau bod pobl sy'n cyflawni'r troeddau hyn yn cael eu herlyn a'u colfarnu.
- Sicrhau bod yna fonitro annibynnol o'r holl gyfleusterau a rhaglenni a gynlluniwyd i wasanaethu pobl anabl er mwyn atal trais, camfanteisio a cham-drin.

## Amddiffyn uniondeb y person (Erthygl 17)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn:

- Gwyrddroi pob cyfraith, rheoliad ac arfer sy'n caniatáu unrhyw fath o ofal meddygol neu lawdriniaeth dan orfod.
- Sicrhau bod pobl anabl (yn arbennig menywod, plant, pobl rhyngrywiol a phobl oedrannus) yn **derbyn cefnogaeth wrth wneud penderfyniadau**.

## Rhyddid symudiad a chenedligrwydd (Erthygl 18)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn **dileu ei 'neilltuad'** (sy'n golygu cyfyngiad) i Erthygl 18 y Confensiwn i **dderbyn ei ofynion yn llawn** ynghylch hawliau pobl anabl i genedligrwydd, rhyddid symudiad ac i ddewis ble maent yn byw ar sail gyfartal i eraill.

## Byw yn annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned (Erthygl 19)

---

Dyweddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Cydnabod hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned yng nghyfreithiau'r Deyrnas Unedig, er mwyn gallu gorfodi hyn yn llysoedd y Deyrnas Unedig.
- Cyflawni gwiriadau rheolaidd, gweithio'n agos gyda sefydliadau pobl anabl, i sicrhau nad yw diwygiadau polisi yn cael effeithiau negyddol ar bobl anabl trwy sicrhau cyllid a strategaethau digonol ar gyfer cefnogaeth gymdeithasol a byw'n annibynnol.
- Darparu cyllid digonol, penodol i awdurdodau lleol a gweinyddiaethau, yn cynnwys llywodraethau datganoledig, i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned, ac i ddewis ble maent yn byw a gyda phwy maent yn byw.
- Gweithio'n agos gyda sefydliadau pobl anabl i lunio cynllun trylwyr i symud pobl anabl o sefydliadau i'r gymuned, ac i sicrhau eu bod wedi eu cefnogi'n llawn yn y gymuned.
- **Ariannu gwasanaethau cefnogaeth yn llawn** i sicrhau eu bod ar gael, yn fforddiadwy ac yn addas ar gyfer anghenion ac amodau byw pob person anabl.



## Rhyddid o ran mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth (Erthygl 21)

---

Galwodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar y Deyrnas Unedig i:

- Gwella **safonau hygyrchedd cyfreithiol** ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth ddigidol.
- Sicrhau fod cyfraith y Deyrnas Unedig yn darparu ar gyfer **yr hawl i ddehongli iaith arwyddo o safon uchel** a mathau eraill o gyfathrebu amgen ar gyfer pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.
- **Darparu cyllid ar gyfer** plant gyda nam ar eu clyw, eu teuluoedd a phobl eraill fel eu cyd-ddisgyblion, i ddysgu iaith Arwyddo Prydain ac iaith gyffyrddol.

## Parch tuag at breifatrwydd a'r teulu (Erthyglau 22 a 23)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn:

- Sicrhau bod rhieni anabl yn cael y gefnogaeth maent angen i ofalu am eu plant, ac na ddefnyddir anabledd fel rheswm dros dynnu plant oddi wrth eu teuluoedd.
- Sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol **i ddarparu cyllid ar gyfer rhieni plant byddar sydd eisiau dysgu iaith arwyddion.**

## Addysg (Erthygl 24)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Ddiddymu ei 'neilltuadau' (cyfyngiadau) i'r Erthygl hon**, fel ei bod yn derbyn yn llwyr y dylid cynnwys pob plentyn anabl mewn addysg prif ffrwd ('addysg gynhwysol') o fewn eu cymunedau eu hunain.
- Datblygu **cyfreithiau a pholisïau i gefnogi addysg gynhwysol**, gosod cyfnod amser ar gyfer gwella'r modd mae ysgolion yn cynnwys plant anabl, a sicrhau bod pob athro a gweithiwr addysg perthnasol arall yn deall pwysigrwydd addysg gynhwysol.
- Gwneud mwy i **wirio a yw ysgolion yn cofrestru plant anabl**, a thaclo gwahaniaethu neu aflonyddu ar sail anabledd.
- Sefydlu **strategaeth wedi ei hariannu'n llawn, gydag amserlen bendant ac amcanion mesuradwy, i wneud addysg yn fwy cynhwysol**. Dylai'r strategaeth gynnwys gweithredu cyfreitha'u a pholisïau, hyfforddiant i athrawon, codi

ymwybyddiaeth ymysg rhieni plant anabl, a chasglu data ynghylch i ble mae plant anabl yn mynd i'r ysgol.

## Lechyd (Erthygl 25)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Ddatblygu cynllun gweithredu gyda ffocws pendant ac wedi ei ariannu'n llawn i ddiddymu rhwystrau o ran mynediad pobl anabl at wasanaethau gofal ac iechyd, ac i fonitro a mesur ei gynnydd.
- Sefydlu protocolau ar gyfer gwasanaethau meddygol sy'n parchu hawl pobl anabl i breifatrwydd mewn gwybodaeth am iechyd.
- Sicrhau bod gan bobl anabl fynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd rhywiol ac atgynhyrchiol, ac i ddarparu gwybodaeth ar gynllunio teulu mewn fformatau hygyrch.
- Sicrhau bod gweithwyr meddygol yn dilyn arweiniad ar orchmynion 'peidio ceisio adfywio' ar gyfer pobl anabl ar sail gyfartal ag eraill.
- Delio â'r **gyfradd uchel o hunanladdiad ymysg pobl anabl**, yn arbennig pobl gydag anabledau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl.

## Gwaith a chyflogaeth (Erthygl 27)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn gweithredu i:

- Datblygu, cyflwyno a monitro **polisi cyflogaeth effeithiol ar gyfer pobl anabl** i sicrhau y gallant gael mynediad at waith boddhaol, a bod yna gyflog cyfartal ar gyfer gwaith o werth cyfartal.
- Sicrhau y gwneir **addasiadau rhesymol** ar gyfer pobl anabl sydd eu hangen i wneud eu swyddi, fod hyfforddiant rheolaidd ar addasiadau rhesymol ar gael i gyflogwyr a chyflogeion, a bod yna gosbau effeithiol pan na wneir addasiadau rhesymol.
- Sicrhau bod y broses o **asesu'r argaeledd i weithio**, yn cynnwys yr Asesiad Galluedd i Weithio, yn ystyried yr amrywiol rwystrau i waith mae pobl anabl yn wynebu.

- Sicrhau **nad yw'r** gefnogaeth mae pobl anabl angen i weithio, yn ogystal â chefnogaeth ariannol **yn destun sancsiynau neu'n amodol** ar bobl anabl yn chwilio am swyddi.

## Safon byw ac amddiffyniad cymdeithasol digonol (Erthygl 28)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- Gyflwyno cyfreithiau i sicrhau bod polisiau a rhaglenni nawdd cymdeithasol **yn amddiffyn lefelau incwm pobl anabl** a'u teuluoedd, gan ystyried y costau ychwanegol a ddaw gydag anabledd. Dylai'r Deyrnas Unedig sicrhau bod pobl yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig i waith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gallu cael mynediad at iawndal llawn ar gyfer costau yn gysylltiedig ag anabledd.
- **Cyflawni asesiad o effaith gyffredinol** y newidiadau diweddar ac i ddod i'r system nawdd cymdeithasol ar bobl anabl, a chymryd camau i daclo gostyngiad yn safon byw pobl anabl.
- **Diddymu Rheoliadau Taliad Annibyniaeth Personol (Diwygiad) 2017**, a sicrhau bod meini prawf cymhwyster ac asesiadau ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Cynhwysol yn ystyried hawliau dynol pobl anabl a'r rhwystrau a wynebant.
- **Sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid** i fodloni eu cyfrifoldebau i gefnogi pobl anabl, ac i barhau gydag ymdrechion i liniaru effaith negyddol diwygio nawdd cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.
- Adolygu dan ba amgylchiadau y byddai derbyn y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn amodol a dan ba amgylchiadau y gellir cosbi hawlwr, a thaclo effaith negyddol hyn ar bobl anabl a'u hiechyd meddwl.

## Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus (Erthygl 29)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn cymryd camau i **wneud pleidleisio yn hygyrch i bobl gydag unrhyw fath o amhariad**, yn diddymu cyfyngiadau ar bobl anabl rhag pleidleisio, ac yn sicrhau fod yna addasiadau rhesymol er mwyn galluogi pobl anabl i arfer eu hawl i bleidleisio yn breifat.

## Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, hamdden a chwaraeon (Erthygl 30)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Gadarnhau cyfamod Marrakesh** i Hwyluso Mynediad at Weithiau Cyhoeddedig i Bersonau sy'n Ddall, â Nam ar eu Golwg, neu Fel Arall yn Anabl o Ran Print, a fyddai'n caniatáu ar gyfer eithriadau i gyfreithiau hawlfraint i alluogi creu fersiynau hygyrch o lyfrau a gweithiau argraffedig eraill i bobl gyda nam ar eu golwg.
- Mabwysiadu cynllun gweithredu mesuradwy, wedi ei gyfarparu'n dda i **sicrhau bod gan bobl anabl fynediad at bob cyfleuster chwaraeon a safleoedd treftadaeth** (yn cynnwys safleoedd treftadaeth UNESCO).

# Rhwymedigaethau penodol (Erthyglau 31-33)

## Ystadegau a chasglu data (Erthygl 31)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig **gynyddu argaeledd data o ansawdd uchel** wedi ei ddadansoddi yn ôl incwm, rhyw, oed, hil, tarddiad ethnig, statws fel ymfudwr, ceisiwr lloches neu ffoadur, anabledd neu leoliad daearyddol, yn cynnwys adolygon o'r boblogaeth yn gyffredinol, a defnyddio safonau rhyngwladol ar gyfer casglu ystadegau cymaradwy ar anabledd.

## Cydweithrediad rhyngwladol (Erthygl 32)

---

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r Deyrnas Unedig:

- **Ddiweddarau Fframwaith Anabledd yr Adran ar gyfer Datblygu Rhyngwladol** yn ddi-oed, gan fabwysiadu targedau mesuradwy ac ymrwymadau penodol i hyrwyddo hawliau pobl anabl yn y gwledydd ble mae'n gweithredu.
- Sefydlu mesurau i sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth sy'n dyrannu cymorth datblygu tramor **yn cynnwys ac ystyried pobl anabl** yn eu gwaith.
- Ymgynghori gyda sefydliadau pobl anabl ar bolisiau i **weithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy** (nodau a gytunwyd yn fyd eang ar gyfer gwella bywydau yn holl wledydd y byd erbyn 2030), yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

## Gweithredu a monitro rhyngwladol (Erthygl 33)

---

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod y Deyrnas Unedig yn:

- **Sefydlu strwythur i gydlynu gweithrediad** y Confensiwn ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

- **Darparu digon o gyllid ar gyfer cyrff sy'n cyflawni gwaith monitro annibynnol i weld** pa mor dda y gweithredir y confensiwn yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys sefydliadau pobl anabl yn y broses hon.

# Camau nesaf

Gofynnodd Pwyllgor y Cenedloedd Unedig i'r Deyrnas Unedig:

- Weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, gan eu rhannu gyda'r holl adrannau llywodraeth perthnasol, llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol, y cyfryngau a grwpiau perthnasol eraill.
- Rhannu holl gasgliadau'r adroddiad hwn yn eang mewn ieithoedd cenedlaethol a lleiafrifol ac mewn fformatau hygyrch.
- Darparu diweddariad ymhen 12 mis ar y camau mae wedi cymryd ar dri maes:
  - byw'n annibynnol a chynnwys yn y gymuned
  - gwaith a chyflogaeth
  - safonau byw ac amddiffyniad cymdeithasol digonol.
- Cyflwyno ei adroddiad cynnydd nesaf erbyn 8 Gorffennaf 2023, a chynnwys gwybodaeth ar sut mae wedi gweithredu argymhellion y Pwyllgor.
- Cynnwys sefydliadau pobl anabl pan fydd yn paratoi ei adroddiad nesaf ar gyfer Pwyllgor y Cenedloedd Unedig, a darparu cyllid i gefnogi eu cynhwysiant.

Dylai'r Deyrnas Unedig nawr weithredu ar argymhellion Pwyllgor y Cenedloedd Unedig, a dylid gwneud hyn gyda chynhwysiant llawn pobl anabl a'u sefydliadau. Mae cyfranogwyr cenedlaethol – yn cynnwys cyrff cydraddoldeb a hawliau dynol a sefydliadau pobl anabl – yn chwarae rhan bwysig wrth alw ar y Deyrnas Unedig i weithredu er mwyn hybu hawliau pobl anabl.

I ddarllen adroddiad llawn Pwyllgor y Cenedloedd Unedig, gweler

[http://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=C  
RPD/C/GBR/CO/1&Lang=En](http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD/C/GBR/CO/1&Lang=En)

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o Wefan y Comisiwn: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com).

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth sy'n annibynnol ac am ddim.

**Gwefan** [www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com)

**Ffôn** 0808 800 0082

**Ffôn testun** 0808 800 0084

**Oriau** 09:00 to 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener); 10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)

**Post** FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad yma at:

**correspondence@equalityhumanrights.com**. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Word hygyrch, fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fideo Iaith Arwyddion Prydain o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com). I gael gwybodaeth am fynediad i'r cyhoeddiad yma mewn fformat amgen, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com).

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Ionawr 2018